

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Awst 2014

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl:	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Martin Davies				
Dyddiad:	20 Ebrill 2018				
Arweinydd polisi:	Lowri Reed				
Manylion cyswllt:	Martin.Davies@llyw.cymru				
Math o Raglen/Prosiect					
<input checked="" type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?					
O's yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
Ar gyfer costau prydau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r trothwy enillion net blynyddol o £7,400 a'r cynnig amddiffyniad pontio arfaethedig.					
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?					
Dim, heblaw am gostau staffio o ran cyfieithu'r dogfennau ymgynghori, y fersiwn ddrafft o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a negeseuon cysylltiedig â'r mater hwn.					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ar gyfer y cam hwn (h.y. tan y cyflwynir y ddeddfwriaeth)				Hyd at ddiwedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (a ddisgwylir yn 2022 ar hyn o bryd), gyda'r amddiffyniad pontio yn berthnasol i rai plant y tu hwnt i hyn (h.y. tan ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol).	

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

6 Mehefin – 14 Medi 2018, ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i gyflwyno'r meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn raddol. Cafodd yr asesiad effaith hwn ei lunio cyn yr ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno trothwy incwm a enillir ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol er mwyn asesu'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Rydym yn cynnig cyflwyno trothwy incwm a enillir net blynyddol o £7,400 o 1 Ionawr 2019. Bydd amddiffyniad pontio, a fyddai'n sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yn colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n raddol (ac wedi hynny yn achos rhai plant), hefyd yn cael ei ddarparu o'r dyddiad hwn. Bydd y trothwy incwm a enillir yn cael ei adolygu. Byddai angen cynnal asesiad effaith ar wahân cyn cyflwyno unrhyw newid dilynol.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Nodau ac Amcanion Polisi

Amcanion y polisi yw diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau:

- bod y rhai mwyaf anghenus yn gallu cael prydau ysgol am ddim, gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd ac addysgol
- bod y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn fforddiadwy i awdurdodau lleol, a fyddai angen cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- bod unrhyw feichiau ariannol cysylltiedig eraill a allai ddod i Lywodraeth Cymru, yn fforddiadwy.

Cefndir

Ar hyn o bryd, mae'r cymhwysedd am brydau ysgol am ddim yn seiliedig ar dderbyn un o'r amrywiaeth o fudd-daliadau (e.e. Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm) sy'n cael eu hadnabod fel "budd-daliadau pasbort". Byddant yn cael eu disodli gan y system Credyd Cynhwysol sy'n cael ei chyflwyno ledled Cymru yn raddol.

Daeth Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 i rym ar 6 Medi 2013. Roedd hwn yn ymestyn y meini prawf cymhwysedd dros dro ar gyfer prydau ysgol a llaeth am ddim i gynnwys pob teulu a oedd yn derbyn y Credyd Cynhwysol, er mwyn sicrhau nad oedd teuluoedd a allai hawlio prydau ysgol am ddim dan y system fudd-daliadau flaenorol, ar eu colled wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Hyd yma, mae nifer y teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn weddol isel. Disgwylir i'r broses o gyflwyno'r system i hawlwr newydd gael ei chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2018 yng Nghymru. Mae'r teuluoedd sydd eisoes yn derbyn y budd-daliadau blaenorol, ac y mae eu hamgylchiadau wedi newid, eisoes yn cael eu trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, bydd holl hawlwr budd-daliadau etifeddol yn cael eu symud i'r system Credyd Cynhwysol rhwng 2019 a 2022.

Bydd Credyd Cynhwysol yn cymryd lle nifer o fudd-daliadau "mewn gwaith" (e.e. Credyd Treth Gwaith), a dyw'r ffaith fod teuluoedd yn derbyn y rhain ddim o reidrwydd yn golygu bod plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Felly, oherwydd bod pob teulu â phlant sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd, gall maint y cohort prydau ysgol am ddim gynyddu'n aruthrol erbyn y bydd y Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llwyr. Nid yw hon yn broblem ar hyn o bryd, gan mai dim ond ychydig o deuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yma yng Nghymru ar hyn o bryd. Erbyn iddo gael ei gyflwyno'n llawn, rydym yn amcangyfrif y bydd tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim (o gymharu ag 16% ym mis Ionawr 2017), ac nid yw hynny'n fforddiadwy.

Does dim arian ychwanegol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru reoli effaith agenda Diwygio'r Wladwriaeth Les Llywodraeth y DU (gan gynnwys Credyd Cynhwysol) ar brydau ysgol am ddim.

Canlyniadau dymunol / beth sy'n golygu 'llwyddiant'?

Bydd Prydau Ysgol am Ddim ar gael i'r rhai mwyaf anghenus. Hyn i'w gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Rydym wedi ystyried:

- llawer o drothwyon incwm a enillir gwahanol. Rydym yn cynnig cyflwyno trothwy incwm a enillir net o £7,400, ac yn amcangyfrif y bydd ar y cyfan yn golygu bod 3,000 yn fwy o blant Cymru yn elwa ar brydau ysgol am ddim erbyn i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn. Mae hyn yn cynrychioli'r newid net amcangyfrifedig ym maint y cohort yn sgil y meini prawf cymhwysedd newydd a gynigir. Mae'n berthynol i nifer amcangyfrifedig y plant a fyddai wedi derbyn prydau ysgol am ddim dan y system fudd-daliadau sy'n cael ei disodli gan Gredyd Cynhwysol.
- a ydym am gynnig amddiffyniad pontio ai peidio, sy'n diogelu teuluoedd rhag effeithiau'r newid polisi am gyfnod dros dro.

Beth fydd yr effeithiau os na chaiff y polisi ei weithredu?

Os na chaiff trothwy enillion ei roi ar waith erbyn y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, rydym yn amcangyfrif y bydd llwyth achosion prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn treblu. Mae hynny'n golygu y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o gymharu ag 16% ym mis Ionawr 2017), na fyddai'n fforddiadwy.

Fel y nodwyd uchod, does dim arian ychwanegol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru reoli effaith agenda Diwygio'r Wladwriaeth Les Llywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim. Os na fydd trothwy incwm a enillir yn cael ei gyflwyno, byddai angen gwneud penderfyniadau ariannu anodd iawn.

Yn ogystal â'r baich ariannol ychwanegol o gyllido rhagor o brydau ysgol am ddim, byddai unrhyw newid ym mhroffil y plant sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn effeithio ar y dangosyddion amddifadedd sy'n cael eu defnyddio mewn ffrydiau arian grant, fel Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru, y Grant Gwella Addysg a fformiwla cyllido Setliad Llywodraeth Leol.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – [Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr?](#)

Bwriad y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yw creu manteision i blant o deuluoedd incwm isel, lle bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, mae *Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr* yn nodi'r ffaith ganlynol am lawer o gymunedau â phoblogaeth uchel o siaradwyr Cymraeg: "Ceir yn yr ardaloedd hyn hefyd bocedi o amddifadedd a thlodi gwledig, a chyflogau cyfartalog sydd ymhlith yr isaf yn y

Deyrnas Unedig”.
<p>Beth yw’r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi’u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?</p> <p>h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?</p>
<p>Ni nodwyd unrhyw effeithiau niweidiol.</p> <p>Nod y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yw cael effaith gadarnhaol ar blant sy’n byw mewn teuluoedd incwm isel, lle bynnag yng Nghymru maen nhw’n byw, a waeth ydyn nhw’n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg.</p>
<p>Pwy yw’r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i’r cynigion?</p>
<p>Rhanddeiliaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> • awdurdodau lleol • consortia addysg rhanbarthol • ysgolion • sefydliadau’r trydydd sector, yn enwedig y rhai sy’n gweithio dros blant a phobl ifanc • teuluoedd <p>Nid yw’r iaith Gymraeg wedi’i heffeithio’n uniongyrchol gan y newidiadau i’r cymhwysedd am brydau ysgol am ddim.</p> <p>Felly, go brin y bydd grwpiau buddiant y Gymraeg yn ymddiddori yn y cynigion.</p>
<p>Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)</p>
<p>Ni ragwelir y bydd diwygio’r cymhwysedd meini prawf prydau ysgol am ddim yn cael effaith ar y Gymraeg. Nid yw asesiad llawn yn berthnasol, yn rhesymol neu’n ymarferol felly.</p>
<p>Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi’u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?</p>
<p>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu/gwaith pellach ynglŷn â’r Gymraeg wedi’u nodi yn y cam hwn.</p>

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU**Crynodeb o'r Asesiad Effaith****Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.****Effeithiau cadarnhaol:**

Nid yw'n gymwys

Effeithiau negyddol:

Nid yw'n gymwys

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Nid yw'n gymwys

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Nid yw'n gymwys

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?

Cadarnhaol:	<input type="checkbox"/>
Negyddol:	<input type="checkbox"/>
Niwtral:	<input checked="" type="checkbox"/>
Anhysbys:	<input type="checkbox"/>

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

1. Dim newid sylweddol

2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau

3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru

4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:****Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych**

yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg


4. Datganiad


Arweinydd polisi:

**Dileer fel y bo'n briodol:*

***Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw:

Lowri Reed
Adran:
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad(au):
23.5.18.
Llofnod:

Dyddiadau adolygu: Yn dilyn yr ymgynghoriad ac yn gyson wedi hynny.

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL	
<p>Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.</p>	
Llofnodwyd  (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad 23.5.18.
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu
Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad adolygu

